# Eglwys Sant Silyn, Wrecsam

# St Giles’s Church, Wrexham

Eglwys Sant Silyn yw un o’r gwychaf o eglwysi trefi Cymru o ddiwedd yr Oesoedd Canol. Fe’i hailgodwyd mewn arddull Berpendicwlar ysblennydd ar ôl tân difrifol tua diwedd y bymthegfed ganrif. Mae to’r canol yn drawiadol dros ben ac ystyrid y tŵr yn un o Saith Rhyfeddod Cymru.

St Giles’s is one of the finest late-medieval town churches in Wales. It was rebuilt in a lavish Perpendicular style following a serious fire in the late fifteenth century. The nave roof is spectacular and the tower was regarded as one of the Seven Wonders of North Wales.




Uchod: Ffotograff o dŵr Eglwys Sant Silyn yn 2008. Mae’n 41.15 metr o uchder.

Above: St Giles’s tower photographed in 2008. The tower is 41.15 metres high.



Uchod: To canol yr eglwys ac ar ei baneli derw lliwgar ceir angylion wedi’u peintio a’u heuro.

Above: The flamboyant oak-panelled nave roof embellished with painted and gilded angels.




Uchod: Llinluniad o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy’n dangos manylion Perpendicwlar y tŵr (*Archaeologia Cambrensis*, 1885).

Above: Nineteenth-century line drawing showing Perpendicular detail of the tower (*Archaeologia Cambrensis*, 1885).










Uchod: Cerddorion angylaidd yn canu’r delyn, y liwt a’r pibau ac yn cerddora’n nefolaidd yng nghanol yr eglwys.

Above: Angelic musicians playing the harp, lute and pipes and making heavenly music in the nave roof.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk